

Cais am Waith yn ymwneud â Choed: Gwaith yn ymwneud â Choed sy'n Destun Gorchymyn Cadw Coed

a/neu

Hysbysu am Waith Arfaethedig yn ymwneud â Choed mewn Ardaloedd Cadwraeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Fel arfer bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol (ACLI) cyn y gellir gwneud unrhyw waith ar goed a warchodir. Fel arfer, y cyngor rydych yn talu eich Treth Gyngor iddo fydd yr ACLI, ond os bydd y goeden/coed mewn Parc Cenedlaethol, dylech gysylltu â'r Awdurdod perthnasol.

Mae coed a warchodir yn cynnwys y rheini sy'n destun gorchymyn cadw coed neu'r rheini sy'n tyfu mewn ardal gadwraeth. Bydd angen i chi gysylltu â'r ACLI hyd yn oed os byddwch am docio canghennau sy'n bargodi o goeden a warchodir sy'n eiddo i gymydog. Dylech anfon un copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau i'ch ACLI.

- **Gorchymyn Cadw Coed** - Os ydych am wneud gwaith ar goed a warchodir gan orchymyn cadw coed, rhaid i chi wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Gwneir penderfyniad ar eich cais, ac unrhyw apêl ddilynol, ar sail y wybodaeth a ddarperir gennyh nawr, felly mae'n werth cael pethau'n iawn o'r cychwyn.
- **Ardaloedd cadwraeth** - Mae'n rhaid i chi roi chwech wythnos o rybudd cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth nad ydynt wedi'u gwarchod gan orchymyn cadw coed. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon at y diben hwn neu gallwch anfon llythyr neu neges e-bost. Dylech gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen o hyd. Rhydd hyn gyfle i'r ACLI ystyried pa un a ddylid llunio gorchymyn cadw coed er mwyn gwarchod y goeden/coed.
- **Datblygiad a ganiateir** - Rhaid i chi hefyd wneud cais neu gyflwyno hysbysiad i'ch ACLI (fel uchod) os byddwch am weithio ar goeden a warchodir lle rydych yn gwneud gwaith datblygu lle nad oes angen caniatâd cynllunio llawn
- **Caniatâd cynllunio** - Lle rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn, efallai y bydd angen i chi wneud cais neu gyflwyno hysbysiad i'r ACLI cyn gwneud gwaith ar goed a warchodir. Dylech gysylltu â'r ACLI i weld beth sydd ei angen.

Pryd na ddylid defnyddio'r ffurflen hon

Nid oes angen i chi gael caniatâd yr ACLI o dan rai amgylchiadau arbennig: pan fydd coeden wedi marw neu'n beryglus, er enghraifft. Yn yr achos hwn, fe'ch cynghorir i drafod y gwaith arfaethedig gyda'r ACLI, yn arbennig cymynu coed (gweler 'Rhagor o Wybodaeth' isod). Dylech fod yn barod i brofi bod y gwaith yn rhan o eithriad.

Cyn i chi wneud cais

Mae'n bosibl y byddwch am drafod eich anghenion gyda thyfwr coed (meddyg coed) cymwys cyn cysylltu â'r ACLI. Os gall yr ACLI wneud hynny, mae'n bosibl y bydd yn werth trafod eich cynigion gyda hwy yn anffurfiol cyn i chi gwblhau'r ffurflen. Mae trafodaeth gynnar yn rhoi cyfle i'r ACLI:

- Ystyried pa un a yw'r gwaith wedi'i eithrio o'r angen i wneud cais/hysbysu
- Rhoi cyngor ar y ffordd orau i gyflwyno eich cynigion
- Eich tywys drwy'r broses a pholisïau gwarchod coed yr ACLI

Rhoddir y cyngor a'r arweiniad a gewch yn ystod y trafodaethau hyn yn ddidwyll, ond ni all unrhyw un o swyddogion yr ACLI roi ateb pendant i chi o ran pa un a gaiff eich gwaith arfaethedig ei ganiatáu. Mae'n bosibl y byddwch am gysylltu â'r ACLI i weld a fyddant yn codi tâl am roi'r cyngor hwn.

Pwy all gyflawni'r gwaith ar goed?

Wrth benderfynu pwy ddylai docio neu gymynu eich coeden, dylech gofio'r canlynol:

- Mae gwaith ar goed yn weithgaredd peryglus. Tyfwr coed hyfforddedig a chymwys gydag yswiriant priodol ddylai wneud y gwaith.
- Dylid cynnal gwaith ar goed i safon uchel. Fel arfer bydd ACLI yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith gydymffurfio â BS 3998 *Argymhellion ar gyfer Gwaith ar Goed*
- Mae'n bosibl y byddwch am gysylltu â'ch ACLI i gael arweiniad ar ddewis contractwr yn eich ardal.

Gorfodi

Gall yr ACLI erlyn pan gaiff gwaith ei wneud heb ei ganiatâd ar goeden a warchodir, heb yr hysbysiad gofynnol ar goeden mewn ardal gadwraeth neu pan gaiff eithriadau eu camddefnyddio.

Llenwi'r ffurflen gais

Cyfathrebu Electronig

Os byddwch yn cyflwyno'r ffurflen hon ar ffurf electronig (o'r Porth Cynllunio, neu drwy e-bost neu ffacs), bydd yr ACLI yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi cytuno y gall gyfathrebu â chi yn yr un modd. Gall hyn gynnwys cyflwyno ei benderfyniad. Gallwch ganslo'r cytundeb hwn drwy ysgrifennu i'r ACLI a gofyn iddo roi'r gorau i gyfathrebu â chi ar ffurf electronig.

1/2. Enwau a Chyfeiriadau'r Ceisydd a'r Asiant

Gallwch gyflwyno'r cais eich hun; nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio asiant, ac nid oes rhaid mai chi yw perchennog y goeden/coed ychwaith. Cwblhewch y ddau flwch os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (e.e. ffrind, perthynas neu gynghorydd technegol sy'n gweithredu ar ran y ceisydd).

Ni ddylech nodi enw eich contractwr gwaith ar goed fan hyn oni bai ei fod yn ymdrin â'r cais ar eich rhan. Caiff pob darn o ohebiaeth, gan gynnwys y llythyr penderfyniad, ei anfon at yr asiant. Gwneir trefniadau ar gyfer ymweliad safle drwy'r asiant hefyd.

3. Lleoliad y Goeden

Os bydd y coed yn tyfu mewn mwy nag un eiddo, neu os bydd bôn coeden bob ochr i'r ffin rhwng dau eiddo, dylech nodi manylion yr ail gyfeiriad fan hyn. Os bydd coed yn tyfu ar unrhyw eiddo arall, nodwch y cyfeiriadau hynny yn y gofod ar waelod y cwestiwn hwn.

4. Perchenogaeth Coed

Nid oes yn rhaid i chi fod yn berchen ar y goeden/coed i wneud cais am ganiatâd ond mae'n arfer da rhoi gwybod i'r perchennog beth rydych yn bwriadu ei wneud. Bydd angen i chi gael unrhyw gytundebau neu ganiatadau angenrheidiol gan y perchennog o hyd cyn gwneud unrhyw waith a ganiateir gan yr ACLI.

Perchennog y goeden fel arfer fydd perchennog y tir y mae'n tyfu arno. Nodwch ei gyfeiriad os yw'n wahanol i gyfeiriad y safle lle saif y goeden/coed a nodwyd gennych eisoes yng nghwestiwn 3.

Nodwch esboniad ar wahân o berchenogaeth y goeden os bydd coeden ar y ffin a bod y ceisydd a'r cymydog yn gyd-gyfrifol amdani, neu os gwneir cais am ganiatâd ar gyfer coed sydd ar y ddau eiddo.

5. Beth Rydych yn Gwneud Cais Amdano?

Mewn ardaloedd cadwraeth, rhaid cyflwyno hysbysiad am waith ar goed sydd â diamedr boncyff o fwy na 75mm pan gaiff ei fesur 1.5m o lefel y ddaear (neu fwy na 100mm os byddwch yn lleihau nifer y coed er mwyn i'r coed eraill dyfu'n well).

6. Manylion am y Gorchymyn Cadw Coed

Mae'n bosibl y gall yr ACLI eich helpu i ateb y cwestiwn hwn. Dylech ddod o hyd i'r teitl ar frig y Gorchymyn. Er enghraifft: Gorchymyn Cadw Coed Dinas Trepren (Rhif 4) 1992 neu Orchymyn Cadw Coed Dinas Trepren (1 Llys yr Ardd) 1992.

7. Nodi'r Goeden/Coed a Disgrifiad o'r Gwaith

Nodi'r goeden/coed

Nodwch rywogaeth y goeden os yw'n hysbys (e.e. derwen, pinwydden yr Alban); Nid oes angen yr enw Lladin. Os yw'n hysbys, defnyddiwch rifau'r coed fel y'u nodir yn Atodlen Gyntaf y Gorchymyn Cadw Coed (e.e. T1 onnen, neu dwy goeden geirios ac un fedwen yn G2). Gwnewch yn siŵr y caiff coed eraill eu nodi gan ddefnyddio dilyniant gwahanol e.e. A, B, C ac ati. Gwnewch yn siŵr bod y rhifau yn cyfateb i'r rhifau a ddefnyddir ar y cynllun braslun (gweler y nodiadau ar gyfer cwestiwn 8).

Triniaeth wael ar goed

Nid yw cynigion a fyddai'n rhoi iechyd neu gyflwr coeden yn y fantol neu'n lleihau ei gwerth amwynderol i'r amgylchedd lleol yn sylweddol yn debygol o gael eu caniatáu oni fydd rhesymau cadarn dros wneud hynny.

Disgrifio'r gwaith a'r rhesymau


Nodwch yn glir pa goed y mae'r disgrifiadau o'r gwaith a'r rhesymau yn cyfeirio atynt. Rhaid rhoi rhesymau dros waith ar goed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed. Ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth, byddai'n ddefnyddiol rhoi rhesymau dros y gwaith, ond nid yw'n orfodol gwneud hynny.

Mae'n hanfodol eich bod yn nodi'n glir pa waith rydych am ei wneud ar gyfer pob coeden sydd wedi'i chynnwys yn eich cais. Mae nodi'n syml eich bod yn bwriadu "torri", "tocio" neu "dacluso" rhai canghennau yn rhy annelwig gan nad yw'n nodi graddau'r gwaith.

Nodir enghreifftiau o driniaethau cyffredin sy'n gysylltiedig â gwaith ar goed ar y dudalen ganlynol.

...parhad ar y dudalen nesaf...

Triniaethau cyffredin sy'n gysylltiedig â gwaith ar goed



Gwybodaeth gyffredinol - Mae'r triniaethau cyffredin a ddisgrifir ac y ceir lluniau syml ohonynt yma yn enghreifftiau o'r hyn y gallech ddewis ei wneud.

Dylai tyfwr coed allu eich helpu i ddiffinio'r gwaith a fydd yn briodol i'r goeden/coed ac yn unol â Safon Brydeinig 3998 - *Argymhellion ar gyfer Gwaith ar Goed*.

- Noder mai'r enw ar gyfer y system ganghennau gyfan yw'r 'goron'.
- Nid oes angen cymeradwyaeth gan yr ACLL i gael gwared ar **ganghennau marw**.



Teneuo'r Goron - Mae hyn yn lleihau dwysedd coron y goeden heb newid siâp na maint cyffredinol y goeden. Mae'r broses deneuo yn lleihau'r deiliant ac yn gadael i fwy o olau ddod drwy'r canopi neu'r goron.

Dylid dynodi faint o deneuo y bwriedir ei wneud fel canran (%) o arwynebedd y dail (fel arfer ni fydd yn fwy na 30%).

- Yn ddefnyddiol o ran dod â mwy o olau i mewn i erddi a ffenestri



Codi'r Goron - Mae hyn yn golygu cael gwared ar y canghennau isaf er mwyn cynyddu'r pellter clir rhwng y ddaear a'r goron.

Nodwch y canghennau rydych am gael gwared arnynt, neu dynodwch uchder uwchlaw lefel y ddaear yr hoffech godi'r goron iddo.

- Yn ddefnyddiol o ran dod â mwy o olau i mewn i erddi
- Yn atal canghennau isel rhag rhwystro llwybrau, rhodfeydd ac ati.



Lleihau'r Goron - Caiff coron y goeden ei lleihau drwy fyrhau'r canghennau, ac felly mae'n newid maint a siâp cyffredinol y goeden. Fel arfer, gwneir y gwaith lleihau o amgylch holl rannau allanol y goron er mwyn sicrhau siâp cytbwys, ond anaml y dylai gynnwys torri drwy'r boncyff.

Dylid nodi faint o waith lleihau y bwriedir ei wneud gan gyfeirio at uchder a rhychwant y goeden ar ôl ei thocio (yn hytrach na pha ganran (%) o'r goron gyffredinol y bwriedir ei thynnu).

- Gall gwaith lleihau rhannol fod yn ddefnyddiol o ran atal canghennau rhag dod i gysylltiad ag adeiladau, toeon a gwteri.

...parhad ar y dudalen nesaf...

Plannu coed yn lle coed a gaiff eu tynnu

Y Porth Cynllunio - Canllawiau ar y Math o Gais

V1 Cymru

Oni bai bod rhesymau da, fel arfer gwneir amod y dylid plannu coeden newydd wrth roi caniatâd i gael gwared ar goeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed. Dyma eich cyfle i ddangos pa goeden y byddai'n well gennych ei phlannu pe byddai'r ACLI yn cymeradwyo eich cais ac yn gwneud amod o'r fath.


8. Gwybodaeth Ychwanegol

Wrth nodi'r rhesymau dros y gwaith arfaethedig ar goed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed, dylech ddarparu digon o dystiolaeth i ategu eich achos. Nodwch y gall methu â darparu gwybodaeth fanwl gywir olygu y caiff eich cais ei wrthod neu y bydd oedi wrth ymdrin ag ef. Dylid anfon gwybodaeth ychwanegol drwy'r post neu ei chyflwyno'n bersonol ar yr un pryd â'r ffurflen neu dylid ei darparu ar ffurf electronig i ategu eich cais. Ni ellir prosesu ceisiadau hyd nes y bydd yr ACLI wedi derbyn yr holl wybodaeth orfodol.

Mae cyfeiriadau at dyfwr coed yn cyfeirio at unigolyn â chymwysterau cydnabyddedig, profiad ac arbenigedd ym maes rheoli coed.

Cynllun braslun sy'n dangos y coed

Dylai'r cynllun braslun ddangos ffiniau ac eiddo cyfagos (gan gynnwys rhifau neu enwau tai) ac enwau ffyrdd. Nid oes angen llunio cynllun i raddfa, ond gall fod yn ddefnyddiol dangos y pellterau bras rhwng y goeden/coed dan sylw a nodweddion perthnasol eraill. Os yn bosibl, dylech gynnwys saeth yn dangos cyfeiriad y gogledd. Dangoswch leoliad y goeden/coed mewn perthynas ag adeiladau ac ychwanegwch y rhifau a ddefnyddiwyd yng nghwestiwn 7.



Enghraifft lai o gynllun braslun

...parhad ar y dudalen nesaf...

Gall fod yn ddefnyddiol dangos coed eraill yn yr ardd er mwyn helpu'r ACLI i nodi'r coed ar y ffurflen. Os oes llawer o goed, mae'n bwysig nodi'n glir pa goeden/coed rydych am wneud gwaith arni/arnynt.

Os yw'n amhosibl nodi'r goeden/coed yn gywir ar y cynllun (e.e. gan eu bod yn rhan o goetir neu grŵp o goed), nodwch eu lleoliad bras ar y cynllun ac eglurwch sut y mae'r goeden wedi'i marcio/coed wedi'u marcio ar y safle (e.e. tâp lliw, tagiau coed). Ni ddylid difrodi rhisgl coed e.e. drwy greithio neu dorri i mewn i'r rhisgl.

Gall ffotograffau fod yn ddefnyddiol, yn arbennig os byddwch am nodi'r coed rydych am weithio arnynt neu i ddangos gwaith penodol lle y gallai fod amheuon e.e. marcio cangen fawr i'w thynnu. Os byddwch yn cyflwyno ffotograffau, gwnewch yn siŵr ei bod yn eglur pa goeden a ddangosir.

Ar gyfer gwaith ar goed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed

Oni fydd yr ACLI yn cytuno'n ysgrifenedig fod y goeden/coed o werth amwynderol isel iawn, rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth a nodir isod pan fydd eich cais yn ymwneud â chyflwr y goeden neu ddifrod y mae'n ei achosi.

Cyflwr y goeden/coed

Dylid disgrifio presenoldeb ac effaith plâu, clefydau neu ffyngau sy'n golygu bod angen gwneud gwaith ar y goeden/coed mewn tystiolaeth ysgrifenedig neu wybodaeth ddiagnostig gan dyfwr coed neu arbenigwr priodol arall. Rhaid darparu tystiolaeth gan dyfwr coed i ategu ceisiadau sy'n awgrymu bod gan y goeden ddiffygion a allai beri pryder o ran cadw'r goeden neu rannau o'r goeden yn ddiogel ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.

Ymsuddiant

Fel arfer caiff adroddiadau eu darparu gan beiriannwr strwythurol a/neu syrfëwr siartredig a'u hategu gan ddadansoddiad technegol gan arbenigwyr eraill e.e. ar gyfer dadansoddiadau o'r gwreiddiau a'r pridd.

...parhad ar y dudalen nesaf...

Rhaid i'r adroddiadau hyn gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r eiddo, gan gynnwys disgrifiad o'r difrod a'r patrwm craciau, y dyddiad y digwyddodd/y nodwyd y difrod gyntaf, manylion am unrhyw waith ategol neu waith adeiladu blaenorol, y strata daearegol ar gyfer y safle wedi'i nodi o'r map daearegol
- Manylion am llystyfiant yn yr ardal gyfagos a'r ffordd y cafodd ei reoli ers darganfod y difrod. Dylech gynnwys cynllun yn dangos y llystyfiant a'r adeilad yr effeithiwyd arno
- Mesuriadau ar gyfer graddau a dosbarthiad symudiadau fertigol gan ddefnyddio dulliau monitro lefel. Lle nad yw dulliau monitro lefel yn bosibl, nodwch pam a darparwch ddata monitro craciau. Rhaid i'r data a ddarperir fod yn ddigonol i ddangos patrwm symud sy'n gyson â phresenoldeb y goeden/coed dan sylw.
- Proffil o dwll prawf/turio a gloddiwyd er mwyn nodi math a dyfnder y sylfeini a nodweddion y pridd
- Nodweddion yr isbridd, gan gynnwys y math o bridd (yn arbennig y pridd y saif y sylfeini arno), terfyn hylif, terfyn plastig a mynegai plastigrwydd
- Lleoliad ac enw'r gwreiddiau y daethpwyd o hyd iddynt. Lle na lwyddwyd i gael cadarnhad pendant o enw'r gwreiddiau, dylid cynnal profion DNA
- Cynigion a chostau amcangyfrifedig opsiynau i drwsio'r difrod

Yn ogystal, rhaid i chi gynnwys adroddiad gan dyfwr coed i ategu'r cynigion ar gyfer gwaith ar goed, gan gynnwys yr opsiynau a gynigir ganddo i osgoi neu liniaru difrod anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r goeden.

Difrod strwythurol arall

Dylid darparu tystiolaeth dechnegol o ran difrod strwythurol arall (e.e. waliau gerddi, draeniau, palmentydd, arwynebeddau rhodfeydd) gan beiriannwr neu syrfëwr adeiladau/draeniau perthnasol neu arbenigwr priodol arall.

9. Cyflogai / Aelod o'r Awdurdod

Rhaid i chi ddatgan a yw'r ceisydd neu'r asiant yn aelod o staff y cyngor, yn aelod etholedig o'r Cyngor neu'n perthyn i aelod o staff neu aelod etholedig o'r Cyngor.

Ni ddylai aelodau etholedig na swyddogion cynllunio cyfredol sy'n cyflwyno eu ceisiadau cynllunio eu hunain chwarae unrhyw ran yn y broses o benderfynu arnynt a dylai'r pwyllgor cynllunio yn hytrach na swyddogion cynllunio wneud penderfyniad ar geisiadau o'r fath o dan bwerau dirprwyedig.

At ddiben y cwestiwn hwn, ystyr 'yn perthyn i' yw perthyn, drwy enedigaeth neu fel arall, yn ddigon agos fel y byddai arsylwr hyddysg a theg, ar ol ystyried y ffeithiau, wedi dod i'r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol o duedd ar ran yr unigolyn a oedd yn gwneud y penderfyniad o fewn yr awdurdod cynllunio lleol.

10. Cais am Waith ar Goed - Rhestr Wirio

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddefnyddio'r rhestr wirio hon i sicrhau eich bod wedi rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r awdurdod cynllunio lleol.

11. Datganiad

Llofnodwch a dyddiwch eich cais.

12. Manylion Cyswllt y Ceisydd

Rhowch wybodaeth gyswllt ar gyfer y ceisydd.

13. Manylion Cyswllt yr Asiant

Rhowch wybodaeth gyswllt ar gyfer yr asiant.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion cadw coed

Fel arfer bydd yr ACLI yn cynnal ymweliad safle i'w helpu i asesu'r gwaith arfaethedig. Mae'n bosibl y bydd yn trafod gwaith amgen gyda chi.

Bydd gennych hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio lle na fydd yr ACLI wedi cyhoeddi penderfyniad o fewn naill ai wyth wythnos neu ddeufis o ddyddiad eich cais, gan ddibynnu ar oedran y Gorchymyn Cadw Coed. Dylech gadarnhau gyda'ch ACLI pa gyfnod sy'n berthnasol; fel arall, gallwch gytuno ar gyfnod estynedig gyda hwy.

Hysbysiadau ardal gadwraeth

Mae gan yr ACLI chwe wythnos lle y gall wrthwynebu eich cynigion. Rhydd hyn gyfle i'r ACLI warchod coed â gwerth amwynderol, y gallai'r gwaith arfaethedig effeithio arnynt. Fel arfer cynhelir ymweliad safle.

Dim ond drwy wneud Gorchymyn Cadw Coed ar y goeden/coed dan sylw y gall yr ACLI wrthwynebu'n ffurfiol. Mewn sawl achos, lle bydd yr ACLI o'r farn nad yw'r gwaith yn briodol, gall drafod gwaith amgen gyda chi. Os na chewch benderfyniad o fewn chwe wythnos i'ch hysbysiad, yna gallwch wneud y gwaith y gwnaethoch gyflwyno hysbysiad yn ei gylch, ond dim mwy na hynny.

Os gwneir Gorchymyn Cadw Coed, bydd hyn yn eich atal rhag gwneud y gwaith heb wneud cais am ganiatâd. Bydd gennych yr hawl i wrthwynebu'r Gorchymyn Cadw Coed a bydd yr ACLI yn rhoi manylion i chi am sut i wneud hyn.